

# Adroddiad Ymgynghori ar Fap Llwybrau Presennol y Ddeddf Teithio Llesol



## 1.0 CEFNDIR

1.1 Daeth y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) i rym ym mis Medi 2014. Mae'n rhoi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i:

- Fapio
- Cynllunio
- Hyrwyddo a
- Gwneud gwelliannau parhaus i

Rwydweithiau Teithio Llesol ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Diffinnir teithio llesol yn y cyd-destun hwn fel cerdded a beicio at ddibenion penodol (megis teithio i'r gwaith, lleoliad addysg, gwasanaeth gofal meddygol neu gyfleusterau hamdden) yn hytrach na mynd am dro cerdded neu feicio'n unig.

1.2 Y nod cyntaf ar gyfer awdurdodau lleol yw cyflwyno Map Llwybrau Presennol (MLIP) i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau. Dylai'r MLIP ddangos y rhwydwaith cerdded/beicio presennol a chynnwys:

- Pa gyfleusterau sydd ar gael i ddefnyddwyr (meysydd parcio, croesfannau etc.)
- P'un a yw'r llwybrau yn bodloni'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol.
- Ble a pham mae bylchau yn y rhwydwaith neu rannau nad ydynt yn bodloni'r canllawiau dylunio ond mae rheswm dilys i'w cynnwys o hyd.
- Pa ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriadau a sut maent wedi dylanwadu ar y MLIP.

1.3 Mae'r ddogfen yn ceisio mynd i'r afael â'r pwynt bwled olaf yn 1.2.

## 2.0 CYFLWYNIAD

2.1 Roedd y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno'r MLIP a'r data cefnogol ym mis Medi 2015. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth gael mynediad i'r mapio Cymru gyfan a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru, cytunodd y Gweinidog i estyn y dyddiad cau i 22 Ionawr 2016.

2.2 Cyn cael gwybod am yr estyniad hwn i ddyddiad cau cyflwyno'r MLIP, roedd Dinas a Sir Abertawe (DASA) wedi dechrau ymgynghoriad cyhoeddus. Ni ohiriwyd yr ymgynghoriad hwn pan gyhoeddwyd yr estyniad a defnyddiwyd yr amser ychwanegol i ganolbwyntio ar ymgynghori â phobl ifanc ar y MLIP.

2.3 Felly roedd dau gam penodol i'r ymgynghoriad MLIP a disgrifir y rhain yn yr adrannau canlynol.

2.4 Roedd yr ymgynghoriad ar y MLIP yn heriol o ran cynnwys y cyhoedd, yn bennaf am ein bod yn gofyn i bobl a oeddent yn cytuno â'r llwybrau a nodwyd a'r archwiliadau a wnaed. Ond ein profiad ni oedd bod pobl wir eisiau canolbwyntio ar ba welliannau roeddent am eu gweld a siarad am ble yr hoffent weld llwybrau neu gysylltiadau newydd yn y dyfodol (sef cam Map Rhwydwaith Integredig y Ddeddf Teithio Llesol).

### **3.0 RHAN 1 YR YMGYNGHORIAD AR Y MLIP**

- 3.1 Ers rhoi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith, roedd DASA eisoes wedi derbyn cyswllt gan 12 unigolyn a oedd yn dymuno mynegi diddordeb yn yr ymgynghoriad Teithio Llesol. Yn ogystal â hyn, roedd y cyngor am gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a cheisio eu barn ar y MLIP.
- 3.2 Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â gwirio'r MLIP ar-lein i weld a oedd yn adlewyrchu profiadau cyfranogwyr o ddefnyddio rhwydweithiau cerdded neu feicio. Yna ystyried a oedd yr archwiliadau a luniwyd gan DASA yn gynrychioliad teg o'u profiad o ran ansawdd/cyflwr y rhwydwaith.
- 3.3 Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o archwiliadau beicio, pob un ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) drwy Abertawe a 60 o archwiliadau cerdded yn seiliedig ar adolygiad grŵp cyfoedion o'r llwybrau cerdded teithio llesol prysuraf (fel arfer ger manau allweddol sy'n cynhyrchu traffig).
- 3.4 Cysylltwyd â'r 12 unigolyn yn uniongyrchol drwy lythyr a/neu e-bost ar 1 Mehefin 2015 a gwelir copi o'r llythyr hwnnw yn Atodiad A.
- 3.5 Cysylltwyd â nifer o sefydliadau rhanddeiliaid (y mae'r cyngor yn ymgynghori â hwy ar ystod eang o faterion) hefyd (gan ddefnyddio fersiwn ddiwygiedig o'r llythyr yn Atodiad A) ac roedd hyn yn cynnwys y grwpiau canlynol:
- Wheelwrights
  - Sustrans
  - Bus Users UK a Traveline Cymru
  - Y Ddraig Ffyni (Fforwm Ieuenctid Abertawe)
  - Fforwm Anabledd Abertawe a Mynediad i Bawb Abertawe
  - Cŵn Tywys Cymru
  - Fforwm Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
  - Age Cymru
  - Fforwm Gofalwyr
  - Stonewall Cymru
  - Cymorth i Fenywod Cymru
- 3.6 Roedd yr ymgynghoriad ar agor o 1 Mehefin tan 31 Awst 2015 a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg i dynnu sylw at y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a mynegi barn ar y MLIP. Trafodwyd yr ymgynghoriad yn Fforwm yr Amgylchedd Abertawe ym mis Mehefin 2015 hefyd.
- 3.7 Lluniwyd holiadur penodol ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac fe'u hatodir fel Atodiadau B ac C.
- 3.8 Dechreuwyd asesu'r ymatebion yn gynnar ym mis Medi. Cyflwynwyd 31 o ymatebion i'r holiadur cerddwyr a 113 o ymatebion i'r holiadur beicwyr. Gwelir canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn Adran 5.

## 4.0 RHAN 2 YR YMGYNGHORIAD AR Y MLIP

4.1 Yn dilyn llythyr y Gweinidog a'r ffocws ar gynnwys pobl ieuengach, roedd angen ymagwedd newydd. Felly, wrth i Ran 1 yr ymgynghoriad fynd rhagddi, datblygwyd ymagwedd newydd a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc (dan 25 oed).

4.2 Roedd tair prif ran i'r ymagwedd hon:

- Ymagwedd uniongyrchol at ysgolion drwy Swyddog Cyfathrebu'r Gyfarwyddiaeth Addysg.
- Ymagwedd at fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe drwy fewnrwyd y brifysgol.
- Holiadur ar-lein (tebyg i'r holiadur cyffredinol).

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 14 Rhagfyr 2015.

4.3 Cafwyd ymateb siomedig iawn i'r ail gam hwn o'r ymgynghoriad gyda dau ymatebwr yn unig. Mae hyn er gwaethaf y ffaith i gyfrifwyr beicio lleol gadarnhau bod y defnydd o feicio i Gampws y Bae newydd Prifysgol Abertawe ac oddi yno wedi cynyddu'n sylweddol.

## 5.0 CANLYNIADAU O'R DDAU YMGYNGHORIAD

5.1 Mae'r holl ymatebion wedi cael eu dadansoddi a dyma'r canlyniadau allweddol:

### Cerddwyr

- Nid yw 35% o ymatebwyr byth yn beicio, mae 68% yn teithio yn y car sawl gwaith yr wythnos o leiaf;
- Mae 42% o ymatebwyr yn cerdded am resymau hamdden, mae 33% yn cerdded i'r gwaith ac mae 17% yn cerdded i'r ysgol neu'r coleg;
- Mae 62% yn aml yn defnyddio llwybrau a rennir ac mae 32% yn eu defnyddio weithiau.

Pan ofynnwyd iddynt nodi lleoedd yr hoffent gerdded ond nid ydynt yn gallu oherwydd diffyg mynediad/cyfleusterau (C5):

- Dywedodd 28% nad oedd problemau o'r fath;
- Nodwyd yr ardaloedd canlynol penodol:
  - Comin Clun i Murton
  - Gogledd Gŵyr
  - Canol y Ddinas
  - Parc Singleton
  - Ffordd y Gorllewin i Heol San Helen
  - Ffordd Fabian
  - Gorseinon a Phontarddulais

Pan ofynnwyd beth fyddai'r tri phrif newid a fyddai'n eu hannog i gerdded yno'n amlach (C6), dyma ymatebion cyffredin:

- Dim mwy o barcio ar y palmant

- Rhwydwaith wedi'i gysylltu
- Cynnal a chadw gwell
- Golau gwell
- Gwahanu (oddi wrth feicwyr)
- Cyflymderau traffig arafach
- Arwyddion gwell
- Systemau gorfodi gwell i feicwyr

Pan ofynnwyd a oedd y MLIP yn cynnwys yr holl lwybrau priodol i gerddwyr (C7), ychydig iawn o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. O'r 20% a ymatebodd, dywedodd 33% nad oedd y mapio'n eglur ac roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Ychydig o lwybrau yng nghanol y ddinas sydd wedi'u dangos
- Mae'r mapio'n canolbwyntio ar ble mae pobl eisoes yn cerdded
- Nid yw'n dangos llwybrau mewn parciau
- Mae pobl yn cerdded ym mhob man

Pan ofynnwyd a oedd yr archwiliadau'n sgorio'r llwybrau'n briodol (C8), ymatebodd hyd yn oed llai o bobl. O'r 13% a ymatebodd, cafwyd pryderon fel a ganlyn:

- Rhoddir ffafriaeth i feicwyr a chaiff cerddwyr eu hesgeuluso
- Nid yw'r data ar gyfer Mount Pleasant yn gywir

### **Beicwyr**

- Mae gan 97% o ymatebwyr fynediad i feic
- Mae 54% yn beicio am resymau hamdden, 42% ar gyfer gwaith
- Mae 46% yn beicio 2-3 gwaith yr wythnos a 29% yn beicio bob dydd
- Mae'n well gan 42% ddefnyddio llwybrau wedi'u gwahanu oddi ar y ffordd, mae'n well gan 26% ddefnyddio llwybrau a rennir oddi ar y ffordd ac mae'n well gan 12% lwybrau wedi'u marcio ar y ffordd.
- Roedd 92% o'r ymatebwyr wedi defnyddio RhBC 4 ac roedd 81% wedi defnyddio RhBC 43 yn Abertawe yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Pan ofynnwyd a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y MLIP yn cynnwys yr holl lwybrau priodol ar gyfer beicio:

- Cytunodd 37%
- Anghytunodd 39%
- Nid oedd 24% yn cytuno nac yn anghytuno

Roedd cyfle i ychwanegu sylwadau er mwyn tynnu sylw at beth arall y dylid ei gynnwys ym marn yr ymatebwyr. Cafwyd amrywiaeth eang o sylwadau. Dyma rai o'r themâu cyffredin:

- Nid yw'r map o ansawdd digonol i asesu hyn
- Nid oes digon o bwyslais ar feicio i dwristiaid/ymwelwyr
- Mae angen canolbwyntio mwy ar ganol y ddinas
- Mae angen llwybrau/cysylltiadau newydd

Pan ofynnwyd pa dri phrif newid fyddai'n gwneud iddynt feicio mwy, yr

ymatebion canlynol oedd y rhai mwyaf cyffredin:

- Gwahanu oddi wrth draffig a cherddwyr
- Cynnal a chadw gwell
- Rhwydwaith beicio cwbl integredig
- Cysylltiadau mwy diogel
- Lle i barcio beiciau

Pan ofynnwyd a oedd archwiliadau beicio'r MLIP wedi sgorio'r llwybrau'n briodol, 20% yn unig o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn. Roedd atebion cyffredinol fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd 24% at bryderon cynnal a chadw penodol
- Cytunodd 13%
- Mynegodd 12% bryderon am broses y Ddeddf Teithio Llesol ei hun
- Cyfeiriodd canrannau llai at lwybrau penodol (yn hytrach nag archwiliadau) a chanol y ddinas, Tregŵyr, Casllwchwr a Phontybrenin oedd yr ardaloedd mwyaf cyffredin.

5.2 O ran proffil yr ymatebwyr:

- Roedd 66% o'r ymatebwyr yn ddynion a 34% yn fenywod
- Roedd 5% o'r ymatebwyr yn yr ystod oed 17-24 oed, 68% rhwng 35 a 64 oed a 12% yn 65 oed ac yn hŷn
- Roedd 56% mewn cyflogaeth amser llawn, 14% mewn cyflogaeth ran-amser ac 17% wedi ymddeol
- Nododd 97% eu bod yn wyn a nododd 3% eu bod yn Ddu Affricanaidd

5.3 Gwahoddwyd ymatebwyr i ychwanegu sylwadau hefyd a chafwyd cannoedd o'r rhain. Gellir eu grwpio'n fras fel a ganlyn:

- Llwybrau newydd y dylid eu datblygu
- Cysylltiadau ychwanegol i lwybrau presennol
- Problemau cynnal a chadw ar rwydweithiau presennol
- Ymddygiad beicwyr
- Cyflymderau traffig
- Goleuadau ar lwybrau wedi'u gwahanu a pharcio i feiciau
- Ansawdd gwael y mapio

5.4 Mae'n glir nad yw llawer o'r bobl a gymerodd ran yn yr holiaduron yn deithwyr "llesol" yng nghyd-destun y Ddeddf. Golyga hyn eu bod yn cerdded/beicio am resymau hamdden yn unig (yn hytrach nag at ddiben penodol) ac felly cymerwyd gofal (lle y bo'n bosib) i geisio gwahanu'r barnau a fynegwyd gan yr ymatebwyr hynny oddi wrth y rheiny sy'n cerdded neu feicio at ddibenion penodol.

## 6.0 CANLYNIADAU O'R BROSES YMGYNGHORI

6.1 Cafwyd dau brif gam gweithredu o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad:

- Roedd nifer mawr o sylwadau yn ymwneud â'r gwelliannau neu'r bylchau yn y rhwydwaith presennol ac felly byddai'n ddefnyddiol paratoi Map Rhwydwaith Integredig ar gyfer cam nesaf y Ddeddf Teithio Llesol.
- Mae'r archwiliadau wedi cael eu hailarchwilio yn sgîl rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm dilys i ddiwygio'r archwiliadau a gwblhawyd.

6.2 Mae pryderon cyffredin hefyd wedi codi ynghylch cynnal a chadw, cyflymder traffig ac ymddygiad beicwyr y bydd angen eu hystyried yn ofalus o ran gwella ac ehangu'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Atodiad A - llythyr a anfonwyd at 12 unigolyn a oedd wedi mynegi diddordeb ym mhroses y Ddeddf Teithio Llesol**

Annwyl Syr/Fadam,

**DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU)**  
**YMGYNGHORIAD AR Y MAP LLWYBRAU PRESENNOL**

Rydych wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar gyflwyno'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) yn Ninas a Sir Abertawe. Mae cam cyntaf yr ymgynghoriad yn ymwneud â llunio Map Llwybrau Presennol (MLIP) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 24 Medi 2015.

Mae MLIP drafft Abertawe yn dangos y llwybrau cerdded a beicio presennol (fel y'u diffinnir gan y Ddeddf) ac yn gysylltiedig â hyn mae nifer o archwiliadau a gynhaliwyd ar y llwybrau prysuraf er mwyn asesu pa mor addas ydynt yn erbyn ystod o feini prawf safonol.

Gellir gweld y mapio a'r archwiliadau yn [www.abertawe.gov.uk/deddfteithiollesol](http://www.abertawe.gov.uk/deddfteithiollesol)

Byddem yn croesawu eich barn ar y MLIP drafft a'r archwiliadau cysylltiedig a byddem yn ddiolchgar pe baech yn cwblhau'r arolwg ar-lein drwy ddilyn y ddolen uchod. Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 10 Awst ac wedi hynny byddwn yn coladu'r ymatebion ac yn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r map a'r archwiliadau cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.